

Cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio gydag un neu fwy o safonau ymddygiad ar y Gymraeg. Daeth Safonau'r Gymraeg yn weithredol i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith o 25 Gorffennaf 2016 gan Adran 47 y Mesur ac mae hyn yn cymryd lle ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae'r Safonau hyn yn gosod disgwyliadau clir ar y Sefydliad Dysgu a Gwaith i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn rhan gynhenid o dreftadaeth a diwylliant Cymru ac felly mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith ran bwysig i'w chwarae wrth annog gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o hanes yr iaith a diwylliant Cymru.

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn awr yn paratoi a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ein cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg.

Diben y Polisi hwn yw nodi sut y bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Yn ychwanegol mae'r Polisi yn anelu i sicrhau fod y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gweithredu yn ôl yr egwyddor sylfaenol a nodir yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, gan roi statws a dilysrwydd cyfartal i'r ddwy iaith.

Bydd yn amlygu:

- Sut y cynigiwn wasanaeth i staff ac ymwelwyr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg lle'n bosibl
- Sut yr ystyriwn yr effaith ar y Gymraeg fel rhan o ddatblygu a defnyddio ein holl strategaethau a pholisïau corfforaethol.
- Sut yr ystyriwn ein prosesau gweithredol a chadw cofnodion yng nghyswllt y Gymraeg.
- Sut ydym yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyhoeddir y polisi hwn yn unol â Safonau'r Gymraeg, fel y'i nodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Standard Number	Diwrnod Gosod	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae Sefydliad Dysgu a Gwaith yn bwriadu cydymffurfio
1	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg	Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn croesawu llythyrau a gohebiaeth electronig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn ateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg os oes angen ateb. Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un fath ag ar gyfer gohebiaeth Saesneg.
2	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi— (a) cadw cofnod o ddymuniad A, (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Pan fydd Dysgu a Gwaith yn anfon gohebiaeth at unigolyn am y tro cyntaf, caiff yr ohebiaeth yn cynnwys pob atodiad eu hanfon yn ddwyieithog gan ofyn i'r sawl sy'n derbyn ym mha iaith y dymunant ohebu gyda ni. Cofnodir hynny pan fydd y dewis iaith yn hysbys. O hynny ymlaen bydd Dysgu a Gwaith yn anfon gohebiaeth at y sawl sy'n derbyn yn eu dewis iaith.

3	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os— (a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny; (b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.	Pan fydd Dysgu a Gwaith yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn o'r un aelwyd am y tro cyntaf, caiff yr ohebiaeth ei hanfon yn ddwyieithog gan ofyn i'r sawl sy'n derbyn ym mha iaith y dymunant ohebu gyda ni. Cofnodir hynny pan fydd y dewis iaith yn hysbys. O hynny ymlaen bydd Dysgu a Gwaith yn anfon gohebiaeth at bob unigolyn yn eu dewis iaith.
---	------------	--------------------------	--	---

4	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	Bydd gohebiaeth a anfonir gan Dysgu a Gwaith at nifer o bersonau yn ddwyieithog os nad yw dewis iaith pob un sy'n derbyn yr ohebiaeth yn hysbys. Bydd llythyrau safonol a chylchlythyrau a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, arfer Dysgu a Gwaith fydd sicrhau fod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.
5	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	Byddwn yn gohebu yn ddwyieithog pan fydd Dysgu a Gwaith yn ansicr o ddewis iaith unigolyn.
6	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	Caiff y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o ohebiaeth eu llofnodi. Mae ein papur pennawd, yn cynnwys teitlau, cyfeiriadau a logos yn ddwyieithog. Caiff pethau arall a gynhwysir a fenthycwyd neu a ddefnyddir dan drwydded eu darparu yn yr iaith y cawsant eu cyhoeddi'n wreiddiol.

7	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddatgan— (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	Bydd gohebiaeth ysgrifenedig swyddogol a gyhoeddir gan Dysgu a Gwaith yn cynnwys yr is-bennawd:- 'Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg'
8	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 8 mewn perthynas ag unrhyw brif rif ffôn (neu brif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neurifau canolfan alwadau: • sydd wedi'u lleoli yng Nghymru	Mae Dysgu a Gwaith yn croesawu ymholiadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff pob galwad atom eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog yn Gymraeg yn gyntaf ac wedyn yn Saesneg.

9	25/01/2018	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Mae ein prif rif ffôn yn gweithredu gwasanaeth ateb dwyieithog wedi'i awtomeiddio sydd â neges wedi ei recordio, gyda'r neges Gymraeg cyn y neges Saesneg
11	25/01/2018	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	Rydym yn delio yn eu dewis iaith gyda'r rhai sy'n cysylltu â ni. Os yw'r person sy'n cysylltu yn siarad Cymraeg, bydd staff Dysgu a Gwaith yn ateb yn Gymraeg neu os na allant wneud hynny, byddant yn trosglwyddo'r galwad yn ddiymdroi i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg. Bydd llinellau cymorth neu gyfleusterau tebyg, sy'n rhoi gwybodaeth, gwasanaeth neu gymorth i'r cyhoedd, yn darparu gwasanaeth dwyieithog.
12	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd unrhyw rifau llinell gymorth gan Dysgu a Gwaith a gwasanaethau canolfannau galwadau yn rhoi gwybodaeth, gwasanaeth neu gymorth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru a chânt eu hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

13	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	Mae Dysgu a Gwaith yn gweithredu un prif rif ffôn yng Nghymru sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r sawl sy'n cysylltu.
14	25/01/2018	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Pan fydd Dysgu a Gwaith yn cyhoeddi unrhyw rif ffôn yn hysbysebu ein gwasanaethau yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog gan nodi y caiff galwadau eu croesawu yn Gymraeg neu yn Saesneg.
15	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Mae'r dangosyddion perfformiad yr un fath ar gyfer galwadau yn Gymraeg ag ar gyfer galwadau yn Saesneg.
16	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	Mae prif rif ffôn Dysgu a Gwaith yng Nghymru yn gweithredu gwasanaeth ateb dwyieithog wedi'i recordio gyda'r neges Gymraeg cyn y neges Saesneg lle gall y sawl sy'n cysylltu adael neges yn eu dewis iaith.

17	25/01/2018	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Bydd holl rifau ffôn Dysgu a Gwaith sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.
19	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	Byddwn yn delio gyda phersonau sy'n cysylltu yn eu dewisiaith. Os ydynt yn siarad yn Gymraeg, bydd staff Dysgu a Gwaith yn ateb yn Gymraeg, neu os na all aelod staff drin y galwad yn Gymraeg, bydd yn esbonio hynny i'r sawl sy'n galw ac yn trosglwyddo'r galwad yn ddiymdroi i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Pe na byddai aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, cymerir manylion cyswllt a ffonnir y sawl sy'n galw yn ôl cyn gynted ag y bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael .

20	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person. Rhaid cydymffurfio â safon 20 mewn perthynas ag unrhyw rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff): • sydd wedi'i leoli yng Nghymru	Caiff yr holl alwadau i Dysgu a Gwaith eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog a roddir yn Gymraeg yn gyntaf ac wedyn yn Saesneg.
21	25/01/2018	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Pan fydd Dysgu a Gwaith yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf, gofynnir i'r unigolyn ym mha iaith yr hoffent dderbyn galwadau gennym, a chofnodir hynny unwaith y bydd dewis iaith yr unigolyn yn hysbys. Caiff galwadau o hynny ymlaen eu gwneud yn newis iaith yr unigolyn.
22	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	Bydd gwasanaeth dwyieithog ar ein holl systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio.

24	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	Pan fydd Dysgu a Gwaith yn trefnu cyfarfodydd gydag aelod o'r cyhoedd, byddwn yn cynnig dewis cyfarfod yn Gymraeg neu Saesneg.
24A	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Bydd Dysgu a Gwaith yn sicrhau y bydd unigolyn rhugl yn y Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd gyda'r rhai sy'n well ganddynt gynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.
25	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Caiff pob gwahoddiad i gyfarfodydd a drefnir gan Dysgu a Gwaith eu hanfon yn ddwyieithog gan ofyn i bob unigolyn ein hysbysu os byddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

25A	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	Bydd Dysgu a Gwaith yn sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfodydd lle mae o leiaf 10% o'r rai a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.
25D	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Mewn unrhyw gyfarfod lle mae pawb a wahoddwyd wedi hysbysu Dysgu a Gwaith eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn sicrhau fod ein holl staff sy'n mynychu'r cyfarfod yn rhugl yn y Gymraeg ac yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael bydd Dysgu a Gwaith yn cynnal y cyfarfod gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.
26	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Wrth drefnu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, bydd Dysgu a Gwaith yn sicrhau fod pob hysbyseb a gwahoddiad yn ddwyieithog, gan nodi bod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y cyfarfod. Byddwn yn sicrhau fod nifer digonol o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol, i annerch neu gyfrannu yn y cyfarfod. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael.

27	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	Caiff pob gwahoddiad i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd eu hanfon yn ddwyieithog.
28	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi— (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Wrth wahodd personau i siarad mewn cyfarfod y mae Dysgu a Gwaith yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, byddwn yn gofyn i bob person a wahoddir i siarad pa iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio yn y cyfarfod. Os oes person yn ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, byddwn yn sicrhau y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad yw pawb sy'n mynychu wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg).

29	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg— (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	Yn ein holl gyfarfodydd cyhoeddus agored a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd y Cadeirydd yn agor y digwyddiad gyda chyfarchiad dwyieithog, gan hysbysu'r rhai sy'n bresennol fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac yn eu hysbysu bod gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael.
30	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Bydd yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig/arddangos a ddangosir mewn cyfarfodydd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i chwith y Saesneg.
31	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	Pan fyddwn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus byddwn yn sicrhau y dilynir ymarfer dwyieithog da. Bydd ein mewnbwn i'r digwyddiad yn cydymffurfio gyda'r Safonau fel y'u hamlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfiaeth.

32	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo)	Pan fyddwn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus byddwn yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad. Bydd ein mewnbwn i'r digwyddiad yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau fel y'u hamlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfiaeth.
33	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Caiff ein holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a deunyddiau hysbysebu eu cynhyrchu'n dwyieithog, bydd y Gymraeg yn ymddangos ar y chwith neu uwchben y Saesneg neu fod yr un mor amlwg. Os caiff fersiynau eu cyhoeddi ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn dweud fod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.
34	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg	Caiff ein holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a deunydd hysbysebu eu cynhyrchu'n ddwyieithog, bydd y Gymraeg yn ymddangos ar y chwith neu uwchben y Saesneg neu bydd yr un mor amlwg. Os cyhoeddir fersiynau ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn dweud fod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.
36	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg.	Caiff unrhyw ddogfennau a gaiff eu llunio ar gyfer defnydd y cyhoedd eu cyhoeddi yn ddwyieithog

44	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Bydd unrhyw ddogfennau a gaiff eu llunio, pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân neu beidio, o faint ac ansawdd cyfartal. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn dweud fod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.
45	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Bydd unrhyw ddogfennau a gaiff eu llunio, pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân neu beidio, o faint ac ansawdd cyfartal. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn dweud fod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.
46	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	Caiff ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig ar gyfer defnydd y cyhoedd yng Nghymru eu llunio yn ddwyieithog.
46A	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Os yw'n rhaid cyhoeddi ffurflenni ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal, byddant ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob un yn cynnwys neges fod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

46B	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	Bydd pob ffurflen a gaiff eu llunio ar gyfer defnydd y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni ac amser ymateb yr un fath yn y ddwy iaith.
47	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	Gan fod unrhyw ffurflenni a gaiff eu llunio yn ddwyieithog fel arfer, bydd unrhyw wybodaeth a gaiff ei mewnosod ar ffurflenni yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os oes angen fersiwn ar wahân ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, fel arfer byddwn yn cyhoeddi'r ffurflen yn newis iaith y sawl sy'n ei derbyn gyda'r wybodaeth a gaiff ei mewnosod ymlaen llaw yn y fersiwn Gymraeg wedi'i llenwi yn Gymraeg.

48	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg	Mae pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn gweithredu'n llawn. Ni chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar unrhyw dudalen.
51	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	Mae pob tudalen o'n gwefan yn rhoi opsiwn iaith i'r defnyddiwr gyda dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg/Saesneg gyfatebol.
52	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	Mae'r rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan ar gael yn naill ai Gymraeg neu yn Saesneg.
53	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw	Bydd pob ap a gyhoeddir gan Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

54	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg..	Bydd holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol Cymru (Twitter, Linked-In, Facebook a YouTube) yn ddwyieithog bob amser, gyda'r neges Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel ei bod yn ymddangos ac y caiff ei darllen yn gyntaf. Bydd staff sy'n gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigol yn gwneud hynny yn eu dewis iaith.
55	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	Bydd holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol Cymru (Twitter, Linked-In, Facebook a YouTube) yn ddwyieithog bob amser, gyda'r neges Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel ei bod yn ymddangos ac y caiff ei darllen yn gyntaf. Bydd staff sy'n gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigol yn gwneud hynny yn eu dewis iaith.
57	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurdeb ac amlygrwydd.

58	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Ar ein holl arwyddion bydd y testun Cymraeg yn ymddangos ar y chwith neu uwchben y testun Saesneg fel mai hwnnw sy'n debygol o geal ei ddarllen yn gyntaf.
59	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Bydd ein cyfieithwyr allanol yn gwirio testun ar arwyddion i sicrhau eu bod yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
60	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	Nid oes gan Dysgu a Gwaith ddesg derbynfa gyhoeddus ond pan fydd gennym ymwelwyr rydym yn croesawu ymholiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith i ddellio gydag ymwelydd sy'n siarad Cymraeg, byddir yn galw ar gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i ddellio gyda'r ymholiad yn ddiymdroi.
63	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	Nid oes gan Dysgu a Gwaith ardal derbynfa gyhoeddus.
64	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	Nid oes gan Dysgu a Gwaith ardal derbynfa gyhoeddus.

65	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Bydd ein holl hysbysiadau a gyhoeddir neu eu harddangos yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i chwith y Saesneg. Os cânt eu cyhoeddi ar wahân am resymau ymarferol, byddant o faint ac amlygrwydd cyfartal ac ar gael ar yr un pryd.
66	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Pan fyddwn yn cyhoeddi neu arddangos hysbysiad, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos ar y chwith neu uwchben y testun Saesneg fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
67	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	Caiff yr holl ddeunyddiau cysylltiedig sy'n ymwneud â cheisiadau am grant eu cyhoeddi yn ddwyieithog neu os cânt eu cynhyrchu ar wahân am resymau ymarferol byddant o faint ac amlygrwydd cyfartal a byddant ar gael ar yr un pryd.
68	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	Caiff yr holl ddeunyddiau cysylltiedig sy'n ymwneud â cheisiadau am grant eu cyhoeddi yn ddwyieithog neu os cânt eu cynhyrchu ar wahân am resymau ymarferol byddant o faint ac amlygrwydd cyfartal a byddant ar gael ar yr un pryd.

68A	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	Bydd y dyddiadau cau a'r amser targed ar gyfer derbyn ac ateb i ymgeiswyr yr un fath ar gyfer ceisiadau Cymraeg a Saesneg.
70	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi— (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Caiff ceisiadau a geir yn Gymraeg ei trin yn y Gymraeg os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny yn nhermau'r holl ohebiaeth ysgrifenedig, cyfathrebu ffôn ac os oes angen cynnal cyfweiliad gwneir hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Naill ai bydd unigolyn addas sy'n rhugl yn y Gymraeg ar gael i ddelio gyda'r ymgeisydd a'r broses gyfweld neu byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

71	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	Caiff yr holl ohebiaeth ysgrifenedig a geir yn y Gymraeg ei hateb yn yr un iaith.
72	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Caiff pob deunydd cysylltiedig a gyhoeddir sy'n cyfeirio at dendr am gontract eu cyhoeddi'n ddwyieithog, neu os cânt eu cynhyrchu ar wahân am resymau ymarferol, byddant o faint ac amlygrwydd cyfartal a byddant ar gael ar yr un pryd.
73	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	Bydd pob gwahoddiad, dogfen a ffurflen yn nodi y croesewir tendrau yn Gymraeg a Saesneg, ni chaiff tendrau a geir yn y Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a geir yn Saesneg.
73A	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau).	Bydd yr amserlen ar gyfer dyddiadau cau, delio gyda thendr a hysbysu am benderfyniadau yr un fath ar gyfer y rhai a ddaw i law yn Gymraeg ac yn Saesneg.

75	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi— (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Caiff tendrau Cymraeg a ddaw i law eu trin yn y Gymraeg os yw'r ymgeisydd yn dymuno o ran yr holl ohebiaeth ysgrifenedig, cyfathrebu ffôn ac os bydd angen cynnal cyfweiliad gwneir hynny yn Gymraeg. Naill ai bydd unigolyn addas rhugl yn y Gymraeg i ddelio gyda'r broses tendr a chyfweiliad neu byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
76	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	Caiff yr holl ohebiaeth ysgrifenedig a geir yn Gymraeg ei hateb yn Gymraeg.
77	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	Caiff pob hysbyseb yn hyrwyddo ein gwasanaethau eu gwneud yn ddwyieithog.

78	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	Caiff yr holl gyhoeddusrwydd neu ddogfennau a luniwn yn hysbysebu gwasanaethau a ddarparwn eu gwneud yn ddwyieithog a'u cyhoeddi ar ein gwefan.
79	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae gennym hunaniaeth gorfforaethol a delwedd gyhoeddus dwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylon cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol.
83	25/01/2017	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	Nid oes gan Dysgu a Gwaith system annerch gyhoeddus.
84	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a	Pan fyddwn yn llunio polisi newydd neu'n addasu polisi presennol gwnawn hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Bydd bwrdd strategol Cymru yn asesu'r effeithiau positif neu andwyol y byddai'n ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael effeithiau positif i ddefnyddio'r Gymraeg, peidio cael unrhyw effeithiau andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

			(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
85	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Pan fyddwn yn llunio polisi newydd neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli gwnawn hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Bydd bwrdd strategol Cymru yn asesu sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau positif neu andwyol y byddai'n ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael effeithiau positif i ddefnyddio'r Gymraeg, peidio cael unrhyw effeithiau andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

86	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Pan fyddwn yn llunio polisi newydd neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli gwnawn hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Bydd bwrdd strategol Cymru yn asesu sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau positif neu andwyol y byddai'n ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael effeithiau positif i ddefnyddio'r Gymraeg, peidio cael unrhyw effeithiau andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
87	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am sylwadau ar yr effeithiau positif neu andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad beidio cael unrhyw effeithiau andwyol neu lai o gyfleoedd andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

88	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Pan fyddwn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am sylwadau ar yr effeithiau positif neu effeithiau mwy positif y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
89	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Pan fyddwn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am sylwadau ar yr effeithiau positif neu effeithiau mwy positif y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

90	25/01/2017	Llunio Polisi	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant— (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—	Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi newydd neu'n addasu polisi presennol ar ddyfarnu grantiau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, yn cynnwys elfennau gwneud cais, asesu, cynnig, monitro taliadau ac ac adrodd. Pan fyddwn yn cynhyrchu, cyhoeddi neu addasu polisi ar ddyfarnu grantiau, byddwn yn rhoi ystyriaeth sut y gall y penderfyniad polisi yn gysylltiedig â dyfarnu'r grant gael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, peidio cael effeithiau andwyol neu lai o effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd y rhai sy'n goruchwyllo'r rhaglen neu brosiect a gefnogwn gyda grant yn monitro cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg.
----	------------	---------------	---	--

			(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
--	--	--	---	--

91	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Byddai unrhyw ymchwil y byddem yn ei gomisiynu i gynorthwyo wrth wneud penderfyniad polisi yn gwneud hynny yn unol â Safonau'r Gymraeg ac yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
92	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Byddai unrhyw ymchwil y byddem yn ei gomisiynu i'n cynorthwyo wrth wneud penderfyniad polisi yn gwneud hynny yn unol â Safonau'r Gymraeg ac yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

93	25/01/2017	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Byddai unrhyw ymchwil y byddem yn ei gomisiynu i'n cynorthwyo wrth wneud penderfyniad polisi yn gwneud hynny yn unol â Safonau'r Gymraeg ac yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
94	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.	Mae gan Dysgu a Gwaith bolisi ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.
95	25/07/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	Mae ein holl wybodaeth recriwtio ar gael yn ddwyieithog, gofynnir i bob ymgeisydd am eu dewis iaith. Anfonir gohebiaeth yn Gymraeg at y rhai a nododd mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith.

96	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi— (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.	Gofynnwyd i'r holl staff presennol am eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth, a gofynnir hynny i'r holl staff newydd pan gânt eu penodi. Unwaith y bydd yr wybodaeth gennym, caiff eu dewis iaith ei nodi ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol ac o hynny ymlaen caiff gohebiaeth a gyfeiriwyd yn bersonol ato ef neu ati hi yn bersonol yn ymwneud â'u cyflogaeth ei hanfon yn newis iaith yr unigolyn.
97	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae pob polisi, gweithdrefn a dogfennau cysylltiedig ar anghenion neu ofynion hyfforddiant (cynlluniau perfformiad a datblygu) ar gael i staff yn Gymraeg ac yn Saesneg.
98	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg..	Mae pob polisi, gweithdrefn a dogfennau cysylltiedig yn amlinellu amcanion perfformiad (cynlluniau perfformiad a datblygu) ar gael i staff yn Gymraeg ac yn Saesneg.

99	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg	Bydd holl gofnodion hanesyddol cyflogeion yn parhau yn eu hiaith wreiddiol, bydd dogfennau yn y dyfodol yn ymwneud â chynllun gyrfa unigolyn ar gael yn eu dewis iaith.
101	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi— (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.	Gofynnir i'r holl gyflogeion newydd pe dymunant dderbyn unrhyw un o'r ffurflenni a nodir yn safon 101 yn y Gymraeg, ac os gofynnir am hynny, caiff y dogfennau hyn eu darparu yn Gymraeg i'r cyflogeion.
101	25/07/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau ynghylch ymddygiad yn y gweithle ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
102	25/07/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau ynghylch iechyd a lles yn y gweithle ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
103	25/07/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

104	25/07/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau ynghylch rheoli perfformiad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
105	25/07/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau ynghylch absenoldeb o'r gwaith ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
106	25/07/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau ynghylch amodau gwaith ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
107	25/07/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau ynghylch patrymau gwaith ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
108	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff— (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a gweithdrefnau cwynion staff yn nodi fod croeso i staff wneud cwynion yn eu dewis iaith, byddwn yn ymateb yn yr un iaith. Caiff unrhyw gyfarfod ei gynnal yn yr iaith honno gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd neu unigolyn addas sy'n rhugl yn y Gymraeg i lywio'r cyfarfod.
108A	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff— (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	Mae ein polisi cwynion yn dweud y gall staff wneud cwyn yn eu dewis iaith, ymatebir yn Gymraeg i gwynion a dderbynnir yn Gymraeg.

110	25/01/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Caiff staff gynnig cynnal cyfarfodydd yn ymwneud â chwynion yn eu dewis iaith. Ar gyfer staff sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith, byddwn yn sicrhau fod unigolyn addas sy'n rhugl yn y Gymraeg yn llywio'r cyfarfod neu roi cymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
-----	------------	------------	--	--

111	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.	Caiff staff gynnig cynnal cyfarfodydd yn ymwneud â chwynion yn eu dewis iaith. Ar gyfer staff sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith, byddwn yn sicrhau fod unigolyn addas sy'n rhugl yn y Gymraeg yn llywio'r cyfarfod neu roi cymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
112	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	Gall staff ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblaeth fewnol yn eu dewis iaith.

112A	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi— (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.	Mae ein polisi disgyblaeth yn nodi fod croeso i staff ymateb yn eu dewis iaith i honiadau a wneir yn eu herbyn.
114	25/01/2017	Gweithredu	Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Caiff staff gynnig dewis iaith yn unrhyw gyfarfod yn ymwneud â materion disgyblaeth yn gysylltiedig â'i ymddygiad ef neu ei ymddygiad hi. Mewn cyfarfodydd lle mae staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, byddwn yn sicrhau fod unigolyn addas rhugl yn y Gymraeg yn cynnal y cyfarfod neu'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

115	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.	Caiff staff eu hysbysu am unrhyw benderfyniad yn dilyn proses ddisgyblaeth yn eu dewis iaith.
116	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	Bydd yr holl staff yn cael dewis cael rhyngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron lle mae rhyngwyneb o'r fath ar gael. Mae meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg drwy wneir cais i'n adran TGCh.

118	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd.	Bydd yr holl staff yn cael dewis cael rhyngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron lle mae rhyngwyneb o'r fath ar gael. Mae meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg drwy wneir cais i'n adran TGCh.
120	25/07/2017	Gweithredu	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	Nid oes mewnrwyd gan Dysgu a Gwaith, ond pe cyflwynid hyn byddwn yn sicrhau fod y fewnrwyd yn rhoi dewis iaith uniongyrchol o Gymraeg neu Saesneg ar bob tudalen.
121	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	Nid oes mewnrwyd gan Dysgu a Gwaith, ond pe cyflwynid hyn byddwn yn sicrhau fod ein mewnrwyd yn rhoi tudalen/nau neilltuol i'r Gymraeg, lle gall staff gael mynediad i'r polisi, canllawiau staff a gwybodaeth am hyfforddiant yn y Gymraeg.

122	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnwyd yn Gymraeg.	Nid oes mewnwyd gan Dysgu a Gwaith, ond pe cyflwynid hyn byddwn yn sicrhau fod y rhyngwynebau a'r dewislenni ar gael yn Gymraeg.
123	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogaion.	Gofynnir i staff hunanasesu eu sgiliau yn Gymraeg a chânt eu cofnodi ar system ganolog.
124	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg— (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.	Darperir hyfforddiant ar gais yn Gymraeg i staff ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio gyda'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch.
125	25/07/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn— (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	Darperir hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

126	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith— (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	Bydd Dysgu a Gwaith yn darparu cyfleoedd os gwneir cais i gyflogeion dderbyn gwersi sylfaenol yn y Gymraeg a rheolwyr i dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu swydd yn ystod oriau gwaith.
127	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.	Bydd Dysgu a Gwaith yn darparu cyfleoedd os gwneir cais i gyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn sylfaenol yn y Gymraeg i dderbyn hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.
128	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu— (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Mae ein proses ymsefydlu yn cynnwys gofyniad ar gyfer staff seiliedig yng Nghymru am ofynion safonau'r Gymraeg, unrhyw ofynion hyfforddiant yn y Gymraeg a gofyn i'r gweithiwr newydd i hunan-asesu a chofnodi eu sgiliau yn y Gymraeg.

129	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	Mae tîm Dysgu a Gwaith Cymru yn ymsefydlu'r holl staff newydd ar ofynion Safonau'r Gymraeg a chodi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle.
130	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	Bydd ein aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg naill ai yn defnyddio'r logo iaith Gwaith neu byddant yn cynnwys Siaradwr Cymraeg/Dysgwyr Cymraeg yn eu llofnodion e-bost i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.
131	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	Bydd holl lofnodion e-bost staff yn cynnwys teitlau swydd a manylion cyswllt yn ddwyieithog. Bydd pob neges staff allan o'r swyddfa yn ddwyieithog.

132	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	Caiff y sgiliau Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag o fewn y sefydliad eu hasesu i ddechrau gan y Rheolwr Recriwtio gan ddefnyddio ein canllawiau Staffio a Recriwtio, gan ystyried gofynion y swydd dan sylw a galluedd siaradwyr Cymraeg o fewn y tîm. Caiff y lefel sgiliau yn y Gymraeg a gofyniad ieithyddol ei nodi'n glir yn y datganiad cyfraniad ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag. Caiff pob sgil yn y Gymraeg a ddynodir eu hysbysebu fel hanfodol ar gyfer pob swydd wag.
132A	25/01/2017	Gweithredu	Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi— (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.	Caiff sgiliau yn y Gymraeg pob swydd newydd neu swydd wag eu hysbysebu fel bod yn hanfodol, gan roi disgrifiad clir o'r lefel iaith a'r gofyniad ieithyddol ar gyfer y swydd. Caiff pob swydd ei hysbysebu'n ddwyieithog.
133	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai	Mae hysbysebion a ffurflenni cais yn ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nodir yn glir ein bod yn croesawu ymgeiswyr i wneud cais yn eu dewis iaith a chaiff ceisiadau a ddaw i law yn y Gymraeg a Saesneg eu trin o fewn yr un amserlen.

			ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	
133A	25/01/2017	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi— (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; (c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	Mae ein holl bolisiau, gweithdrefnau, hysbysebion a ffurflenni cais yn ymwneud â recriwtio yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
133B	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	Caiff ceisiadau a ddaw i law yn Gymraeg a Saesneg eu trin o fewn yr un amserlen.

135	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi— (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).	Mae ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolyn nodi eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliad neu ddull asesu arall.
136	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg	Byddwn yn gohebu gydag ymgeiswyr yn eu dewis iaith.

137	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurdeb ac amlygrwydd.
138	25/01/2017	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd y testun Cymraeg i'w chwith neu uwchben y testun Saesneg.
139	25/01/2017	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a ddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Caiff yr holl destun ar arwyddion a ddangosir o fewn ein gweithleoedd eu prawfddarllen gan ein Tîm Cyfieithu allanol neu berson sy'n rhugl yn y Gymraeg i sicrhau cywirdeb o ran ystyr a mynegiant.

141	25/01/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	Bydd y sefydliad yn cadw cofnodion o bob cwyn ynghylch y Gymraeg ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r cofnod yn cynnwys natur y gŵyn a pha gam/au y byddwn yn eu cymryd mewn ymateb.
142	25/01/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Caiff cofnodion a chopïau o ohebiaeth ysgrifenedig ynghylch Safonau'r Gymraeg eu cadw'n ganolog gan ein Rheolwr Swyddfa Cymru.
143	25/01/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	Caiff pob cwyn ysgrifenedig a gawn ynghylch y Gymraeg eu cadw'n ganolog gan ein Rheolwr Swyddfa Cymru.
144	25/01/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Wrth wneud penderfyniadau polisi, byddwn yn defnyddio Bwrdd Strategol Cymru i asesu'r effeithiau positif neu andwyol y byddent yn eu cael ar y Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad gael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, peidio bod ag effeithiau andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

145	25/01/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 123), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	Gofynnir i'r holl staff hunan-asesu eu sgiliau yn y Gymraeg a'u cofnodi gyda Rheolwr Swyddfa Cymru, sy'n galluogi'r sefydliad i roi adroddiad ar sgiliau Cymraeg ein gweithlu.
146	25/07/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o— (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 124), a (b) os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 124, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.	Cedwir cofnodion ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd yn Gymraeg a chanran y staff a fynychodd cyrsiau a ddarparwyd yn Gymraeg.
147	25/01/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 132) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	Cedwir cofnodion o'r holl asesiadau a gynhelir i ddynodi lefel sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer yr holl swyddi newydd a swyddi gwag ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn cynnwys gallu iaith yr ymgeisydd llwyddiannus.

148	25/01/2017	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 132) fel swyddi sy'n gofyn— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	Cedwir cofnod o lefel sgiliau yn y Gymraeg a'r gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
149	25/01/2017	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae gennym bolisi Safonau'r Gymraeg yn ei le sy'n amlinellu sut y bydd Dysgu a Gwaith yn cydymffurfio gyda Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Mae'r polisi ar gael ar ein gwefan ac ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.

150	25/01/2017	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Croesawn gwynion ac mae gennym bolisi a gweithdrefn yn eu lle i ymdrin â'r holl gwynion a gaiff y sefydliad. Caiff pob cwyn a ddaw i law eu trin yn unol â'r polisi hwn sydd ar gael ar ein gwefan ac mae ar gael ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.
-----	------------	---------------------------------	--	--

151	25/01/2017	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer— (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Byddwn yn cymryd camau positif i hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy eang wrth ymwneud ag eraill, yn ogystal ag yn fewnol ar draws ein sefydliad. Byddwn hefyd yn ceisio hyrwyddo neu hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned. Byddwn yn monitro cynnydd wrth weithredu ar dargedau mewn Cynllun Gweithredu Blyneddol. Mae'r Gymraeg yn eitem sefydlog ar agenda ein Bwrdd Strategol Cymru i oruchwyllo a monitro gweithredu Safonau yng Nghymru. Bydd gan ein Rheolwr Swyddfa Cymru, Swyddog Prosiect a gwasanaeth cyfieithu ran bwysig wrth helpu i weithredu'r Safonau a rhoi'r cyngor a chymorth angenrheidiol. Cyflwynir adroddiad blyneddol ar weithredu'r Safonau i'n Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Anfonir copi at Gomisiynydd y Gymraeg a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn cadw cofnod gyfredol a ddigonol o wybodaeth yn ymwneud â gweithredu'r Safonau, gan ein galluogi i fonitro ac adrodd ar y Safonau.
-----	------------	---------------------------------	--	--

152	25/01/2017	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i’r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd.	Byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol fydd yn cynnwys sut mae ein sefydliad wedi cydymffurfio gyda’r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth. Cyhoeddir yr adroddiad o fewn yr amserlen sydd ei hangen dan Safonau’r Gymraeg a chaiff ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad ar ein gwefan a bydd ar gael ar gais ym mhob un o’n swyddfeydd sydd yn agored i’r cyhoedd.
-----	------------	------------------------------	--	---

153	25/01/2017	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Caiff ein polisi ar Safonau'r Gymraeg ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd yn rhoi manylion sut mae'r sefydliad yn bwriadu cydymffurfio gyda'r holl Safonau yn cynnwys y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ein Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gawsom ym mis Gorffennaf 2016.
154	25/01/2017	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn rhoi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaeth gyda'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ein Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gawsom ym mis Gorffennaf 2016.
155	25/01/2017	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Cyhoeddir ein polisi ar Safonau'r Gymraeg ar ein gwefan a bydd yn rhoi manylion sut mae ein sefydliad yn bwriadu cydymffurfio gyda'r holl Safonau yn cynnwys y Safonau Llundio Polisi yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Mae'r polisi ar gael ar ein gwefan ac ar gael ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.

156	25/01/2017	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae gennym bolisi a gweithdrefn ar gwynion yn ei le, sydd ar gael ar ein gwefan ar gyfer pob cwyn a gawn. Mae copi o'r polisi a'r weithdrefn ar gael ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd.
-----	------------	------------------------	--	---

157	25/01/2017	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Wrth wneud penderfyniadau polisi, byddwn yn defnyddio Bwrdd Strategol Cymru i asesu'r effeithiau positif neu andwyol y byddai'n ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Caiff ein polisiâu a gweithdrefnau ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth eu cyhoeddi ar ein gwefan ac mae copi ar gael ar gais o bob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.
-----	------------	------------------------	--	--

158	25/01/2017	Atodol - Llunio Polisi	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Byddwn yn cynhyrchu a chyflwyno Adroddiad Blynyddol fydd yn cynnwys sut mae ein sefydliad wedi cydymffurfio gyda'r Safonau Llunio Polisi. Cyhoeddir yr adroddiad o fewn yr amserlen ofynnol dan Safonau'r Gymraeg a chaiff ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad ein gwefan a bydd ar gael ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.
-----	------------	------------------------	---	---

159	25/01/2017	Atodol - Llundain Polisi	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau Llundain polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Mae gennym bolisi ar Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y bwriadwn gydymffurfio gyda'r holl Safonau yn cynnwys y safonau Llundain polisi.
160	25/01/2017	Atodol - Llundain Polisi	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau Llundain polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn rhoi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg am gydymffurfiaeth gyda'r safonau Llundain polisi y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gawsom ym mis Gorffennaf 2016.
161	25/01/2017	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae ein cofnodion ar y polisi ar Safonau'r Gymraeg yn nodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio gyda'r holl Safonau yn cynnwys y Safonau Gweithredol yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Cyhoeddir y polisi hwn ar ein gwefan ac mae ar gael ar gais yn ein holl swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.

162	25/01/2017	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.	Mae gennym bolisi a gweithdrefn ar gwynion yn ei le sy'n esbonio sut y byddwn yn ymdrin gyda'r holl gwynion a gaiff y sefydliad. Cyhoeddir y polisi a gweithdrefn ar ein gwefan ac mae ar gael ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.
163	25/01/2017	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer— (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd.	Bydd ein sefydliad yn rhoi adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ein cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Caiff gweithrediad y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn a'i addasu fel sydd angen a'i gyhoeddi ar ein gwefan..

164	25/01/2017	Atodol - Gweithredu	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo’n berthnasol, i’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau y cyfeirir atynt)— (a) nifer y cyflogeion sy’n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 145); (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 146); (c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 146); (ch) nifer y swyddi newydd a’r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn	Byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein cydymffurfiaeth gyda Safonau’r Gymraeg yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ac yn cynnwys yr wybodaeth a geisir fel y’i hamlinellir yn Safon 164. Caiff gweithrediad y polisi hwn ei adolygu yn flynyddol a’i asesu fel sydd angen.
-----	------------	------------------------	--	--

		ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn— (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd, (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 148); (d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
--	--	--	--

165	25/01/2017	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Mae ein polisi ar Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio gyda'r holl safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn cynnwys y Safonau Gweithredol. Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan.
166	25/01/2017	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn rhoi gwybodaeth ar gais Comisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth gyda'r Safonau Gweithredol yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gawsom ym mis Gorffennaf 2016.
167	25/01/2017	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae ein polisi ar Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio â'r holl Safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn cynnwys y Safonau Cadw Cofnodion. Cyhoeddir y polisi hwn ar ein gwefan ac mae ar gael ar gais yn ein swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.
168	25/01/2017	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch cydymffurfiaeth gyda'r safonau cadw cofnodion yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gawsom ym mis Gorffennaf 2016.